# Canllaw i ganlyniadau

**Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol**
**Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)**
**Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol**
**Lefel 3 Project Estynedig**
**Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio**
**Lefel 1 Lladin**
**Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol**
**Lefel Mynediad**

Haf 2026

# Cynnwys


1. Diwrnod y Canlyniadau 3
   - i) Casglu Canlyniadau Arholiadau 3
   - ii) Beth i'w Ddisgwyl 3
   - iii) Sut mae'r Canlyniadau yn cael eu dangos ar y Slip Canlyniadau 3
     - Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol 3
     - Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) 4
     - Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol 4
     - Lefel 3 Project Estynedig 4
     - Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio 5
     - Lefel 1 Lladin a Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol 5
     - Lefel Mynediad 5
   - iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau 5
2. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd yn pryderu am ganlyniad 6
3. Ffiniau Graddau 6
4. Pryd bydd tystysgrifau ar gael 7

Atodiad 1 - Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio A*A*A* - EEE 7

# 1. Diwrnod y Canlyniadau

## i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau arholiadau oddi wrth eu canolfan, fel arfer ar y diwrnod canlyniadau swyddogol.

Ar gyfer Haf 2026, bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi

o 8:00am **ddydd Iau 13 Awst** ar gyfer Cymwysterau Lefel 3.

o 8:00am **ddydd Iau 20 Awst** ar gyfer Cymwysterau Lefel 2.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9:30am ar ddiwrnod y canlyniadau perthnasol.

## ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno. Os yw ymgeiswyr wedi sefyll cymwysterau gyda byrddau arholi gwahanol, gallan nhw dderbyn mwy nag un slip canlyniadau, neu gall yr ysgol neu goleg greu un slip sy'n dangos yr holl ganlyniadau gyda'i gilydd.

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gellir gwneud newidiadau yn ddiweddarach, yn dilyn adolygiad gan y ganolfan neu apêl, er enghraifft.

## iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar slip canlyniadau

### Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol, bydd canlyniadau'n dangos y radd fel Lefel 1 Llwyddo (P1), Lefel 2 Llwyddo (P2), Lefel 2 Teilyngdod (M), Lefel 2 Rhagoriaeth neu Lefel 2 Rhagoriaeth* (D*)

Os yw lefel cyflawniad ymgeisydd islaw'r safon isaf, bydd yr ymgeisydd hwnnw'n derbyn canlyniad annosbarthedig (U) ac ni fydd yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster.

## Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Defnyddir graddfa o 8 pwynt i ddyfarnu Dyfarniadau Technegol:

Lefel 2 Rhagoriaeth* (*2), Lefel 2 Rhagoriaeth (D2), Lefel 2 Teilyngdod (M2), Lefel 2 Llwyddiant (P2), Lefel 1 Rhagoriaeth*(*1), Lefel 1 Rhagoriaeth (D1), Lefel 1 Teilyngdod (M1), Lefel 1 Llwyddiant (P1).

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU), mae manyleb pob pwnc yn cynnwys y cyfatebiaethau o ran graddau.

Cyhoeddwyd y ddogfen "Ffiniau Graddau GMU a Gwybodaeth am Unedau (gyda rheolau terfynol) y Lefel 1/Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol (Dyfarniad Technegol) cyffredinol" ar y dudalen Ffiniau Graddau ar wefan CBAC ac Eduqas (unwaith y byddwch chi ar y dudalen honno cliciwch ar "Lefel 1/2" i weld y wybodaeth).

Cyhoeddwyd y ddogfen hon i'ch cefnogi chi o ran sut i ddeall y dyfarniadau technegol hyn. Mae'r gofynion o ran ennill y graddau'n wahanol i'r hyn sy'n digwydd gyda'r Dyfarniadau Galwedigaethol eraill.

## Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio o A-E, y radd uchaf yw A. Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio o A*-E, y radd uchaf yw A*. Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio o A*A**- EE, y radd uchaf yw A*A*. Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio A*A*A* - EEE, y radd uchaf yw A*A*A*.

Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio P/M/D/D*, P = Llwyddo, M = Teilyngdod, D = Rhagoriaeth y radd uchaf yw D* (Rhagoriaeth*).

Os yw lefel cyflawniad ymgeisydd islaw'r safon isaf, bydd yr ymgeisydd hwnnw'n derbyn canlyniad annosbarthedig (U) ac ni fydd yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster.

## Lefel 3 Project Estynedig

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer y cymhwyster a safwyd.

Adroddir y radd fel A* - E.

Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer yr uned yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster.

## Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Adroddir y radd fel Llwyddiant (P), Teilyngdod (M) a Rhagoriaeth (D).

Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer yr uned yn cael eu dangos fel F (Methu) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster.

## Lefel 1 Lladin

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Adroddir y radd fel A* - C (ac A* yw'r radd uchaf).

Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer yr uned yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster.

## Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Adroddir y radd fel Llwyddiant (P), Teilyngdod (M) a Rhagoriaeth (D).

Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer yr uned yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster.

## Lefel Mynediad

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer y cymhwyster a safwyd.

Mae canlyniadau Lefel Mynediad yn cael eu hadrodd fel 1, 2 neu 3 yn dynodi Llwyddiant ar naill ai Mynediad 1, Mynediad 2 neu Mynediad 3 a Mynediad 3 yw'r radd uchaf.

Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

## iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau a marciau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae **X** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd ar gyfer pob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae **Q** yn dangos bod canlyniad i ddod neu ddim ar gael ar hyn o bryd.

**#** Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

## 2. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd yn pryderu am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, Swyddog Arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gallai'r ganolfan wneud cais am un neu fwy o'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau a gynigir gan CBAC. Ni all ymgeiswyr mewnol na rhieni wneud cais. Gall ymgeiswyr preifat gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau CBAC i gyflwyno cais.

Ymhlith y gwasanaethau hyn mae:

- Dychwelyd  sgriptiau yn rhad ac am ddim – bydd fersiwn electronig o'r sgript ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o'r safle Porth.
- Ailwiriad clercaidd – ailwiriad yw hwn o'r holl weithdrefnau clercaidd sy'n arwain at gyhoeddi canlyniad.
- Adolygu'r marcio ar ôl y canlyniadau – adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio y cytunwyd arno wedi'i ddefnyddio'n gywir.
- Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Am fanylion pellach, ewch i'n tudalen Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau a chyfeiriwch at y wybodaeth a gyhoeddir gan y CGC am weithdrefnau **Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau**.

**Mae'n bwysig nodi y gall marciau aros yr un fath, neu godi neu ostwng, wrth wneud cais am ailwiriad clercaidd neu adolygiad o farcio.** Felly, rhaid i ymgeiswyr lofnodi dogfen yn cydsynio i'r cais cyn i ysgol neu goleg ei gyflwyno.

Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr. **Unwaith y bydd canlyniad wedi'i gyhoeddi, ni ellir adfer y marc gwreiddiol dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed os yw'r marc newydd yn is na'r marc gwreiddiol.**

## 3. Ffiniau Graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Er bod papurau arholiad yn cael eu hysgrifennu i'r un lefel o anhawster, maen nhw'n amrywio bob blwyddyn. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff arholiad ei sefyll.

Gallwch weld ffiniau graddau unedau a'r wybodaeth am drawsnewid marciau crai yn farciau GMU yn ein trawsnewidydd gradd **yma** (Dyfarniadau Galwedigaethol /

Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol), Lefel Mynediad, Lladin, Lefel 3 Cymhwysol yn unig).

Ar gyfer ffiniau graddau GMU cymwysterau, cyfeiriwch at y manylebau pwnc perthnasol dan cymwysterau **yma**.

## 4. Pryd bydd tystysgrifau ar gael

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon i ganolfannau erbyn mis **Tachwedd**.

Dylai ymgeiswyr gadarnhau bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na **4 Medi 2026**. Os nad yw gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau â'u hysgol neu goleg beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau.

## Atodiad 1 - Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio A*A*A*- EEE

Sylwer bod systemau gwybodaeth rheoli (MIS) a ffeiliau canlyniadau cyfnewid data electronig (EDI) canolfannau wedi'u fformatio i ganiatáu uchafswm o ddwy radd. Felly ar gyfer canlyniadau EDI, bydd setiau graddau "cod byr" yn cael eu defnyddio. Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r graddau a'r setiau graddau "cod byr" (yn dangos sut bydd tair gradd yn cael eu dangos ar slipiau canlyniadau).

**Mae'n bosibl y bydd eich cyflenwr MIS yn gallu trawsnewid y setiau graddau hyn yn ôl i dair gradd i chi gan ddefnyddio'r data a ddarperir gan y CGC. Cysylltwch â'ch cyflenwr am fwy o wybodaeth.**

Bydd y tair gradd i'w gweld ar y tystysgrifau ac ni fyddant yn defnyddio'r setiau graddau "cod byr".

| **Graddau wedi'u Dangos yn Llawn**<br><br>**(sy'n ymddangos fel isod ar dystysgrifau)** | **Set Graddau Cod Byr**<br><br>**(sy'n ymddangos fel isod ar slipiau canlyniadau)** |
|---|---|
| Gradd A*A*A* | *3 |
| Gradd A*A*A | *2 |
| Gradd A*AA | *1 |
| Gradd AAA | A3 |
| Gradd AAB | A2 |

| | |
|---|---|
| Gradd ABB | A1 |
| Gradd BBB | B3 |
| Gradd BBC | B2 |
| Gradd BCC | B1 |
| Gradd CCC | C3 |
| Gradd CCD | C2 |
| Gradd CDD | C1 |
| Gradd DDD | D3 |
| Gradd DDE | D2 |
| Gradd DEE | D1 |
| Gradd EEE | M3 |
| Annosbarthedig | U |